Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru
Diabetic Eye Screening Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru 2017-18

Chwefror 2019



Cyhoeddiad Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Amdanom ni

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.

Rydym yn rhan o'r GIG ac yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw sicrhau Cymru iachach, hapusach a thecach. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol, gyda'n partneriaid ac ar draws cymunedau yn y meysydd canlynol:

**Diogelu iechyd** — darparu gwybodaeth a chyngor a chymryd camau i ddiogelu pobl rhag clefyd trosglwyddadwy a pheryglon amgylcheddol

**Gofal sylfaenol, cymunedol ac integredig** — cryfhau effaith iechyd y cyhoedd drwy bolisi, comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau

**Microbioleg** — darparu rhwydwaith o wasanaethau microbioleg sy'n cynorthwyo diagnosis o glefydau heintus a'u rheoli

**Diogelu** — darparu arbenigedd a chyngor strategol i helpu i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed

**Sgrinio** — darparu rhaglenni sgrinio sy'n cynorthwyo canfod clefydau'n gynnar, eu hatal a'u trin

**Gwybodaeth iechyd** — dadansoddi data iechyd y cyhoedd, dod o hyd i dystiolaeth a rheoli gwybodaeth

**Gwella ansawdd a diogelwch cleifion y GIG** — darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r GIG i wella canlyniadau cleifion

**Polisi, ymchwil a datblygu rhyngwladol** — dylanwadu ar bolisi, cynorthwyo ymchwil a chyfrannu at ddatblygu iechyd yn rhyngwladol

**Gwella iechyd** — gweithio ar draws asiantaethau a darparu gwasanaethau i'r boblogaeth er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd


## Rhagor o wybodaeth

Gwefan: www.publichealthwales.org/strategy
E-bost: general.enquiries@wales.nhs.uk
Twitter: @PublichealthW
Facebook: https://www.facebook.com/PublicHealthWales/

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ar gyfer y flwyddyn o fis Ebrill 2017 tan ddiwedd mis Mawrth 2018.

**I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn a rhoi adborth arno cysylltwch â:**
Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data,
Yr Is-adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ
Ffôn: 029 2010 4405

E-bost: Screening.Information@wales.nhs.uk

**Datganiad Sicrhau Ansawdd**

Mae cofnodion sgrinio data yn newid yn barhaus. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi'i nodi fel un y mae angen sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Ceir data gan nifer mawr o ffynonellau gwahanol gyda lefelau amrywiol o gywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data – er enghraifft data practis meddyg teulu – ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith. Bydd yr oedi hwn, felly, yn effeithio ar gyflawnrwydd y data gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod data yn cael eu diweddaru'n barhaus a gall fod mân ailaddasiadau yn y niferoedd a ddyfynnir yn y ddogfen hon o un flwyddyn i'r llall oherwydd adnewyddu data.

© 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (DLA)
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/ ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Llun y clawr gan Patrick Brinksma.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Cynnwys


**1 CYFLWYNIAD ........ 4**
1.1 Negeseuon allweddol i'r cyhoedd ........ 4
1.2 Cyflawni'r rhaglen ........ 5
1.3 Llwybr sgrinio ........ 5

**2 PENAWDAU YSTADEGAU 2017-18 ........ 6**

**3 DATA ........ 7**
3.1 Cwmpas ........ 7
3.2 Cynnig sgrinio'n amserol ........ 8
3.3 Adroddiad ar ganlyniadau sgrinio ........ 9
3.4 Retinopathi a nodwyd ........ 10
3.5 Atgyfeiriadau i Offthalmoleg ........ 13

**4 DIFFINIADAU ........ 14**

**5 TÎM CYNHYRCHU ........ 17**


# Tablau a Graffiau


Tabl 1:Cwmpas Sgrinio Llygaid Diabetig yn ôl Bwrdd Iechyd ........ 7

Tabl 2:Cleifion sy'n cael eu Hailalw o fewn 12 Mis yn ôl Bwrdd Iechyd ... 8

Tabl 3:Canlyniadau wedi'u hargraffu yn ôl Bwrdd Iechyd ........ 9

Tabl 4:Dadansoddiad o Retinopathi yn ôl Bwrdd Iechyd ........ 11

Tabl 5:Canlyniadau Retinopathi yn ôl Bwrdd Iechyd ........ 12

Tabl 6:Atgyfeiriadau i Offthalmoleg yn ôl Bwrdd Iechyd ........ 13

# 1 Cyflwyniad

Croeso i'r adroddiad ystadegol blynyddol cyntaf a gyhoeddir gan Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) fel rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd DESW (Gwasanaeth Sgrinio Retinopatheg Diabetig Cymru yn flaenorol) ei gomisiynu'n wreiddiol fel gwasanaeth cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2002. Daeth DESW yn weithredol ym mis Mehefin 2003 ac erbyn 2004 roedd yn darparu gwasanaeth i gleifion ym mhob ardal Bwrdd Iechyd. Cafodd y gwasanaeth ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro tan fis Ebrill 2016 pan drosglwyddodd i ymuno â'r Rhaglenni Sgrinio Cymru gyfan seiliedig ar boblogaeth eraill a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Nod y gwasanaeth yw canfod retinopathi diabetig cyn colli golwg. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod nodi a thriniaeth gynnar yn gallu atal colli golwg mewn 70 – 90% o bobl â retinopathi diabetig sy'n bygwth golwg (VISION 2020 Sefydliad Iechyd y Byd https://www.iapb.org/vision-2020/).

DESW yw'r unig raglen sgrinio gydol oes yn y DU. Mae pawb sy'n 12 a hŷn sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes, sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru, yn gymwys i gael profion sgrinio'r retina rheolaidd gyda DESW.

Yn ystod 2017/18, am y tro cyntaf, cytunodd DESW i gyfres o safonau gwasanaeth er mwyn mesur perfformiad y gwasanaeth. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi bob mis ers mis Ebrill 2018, a byddant yn arwain at gyhoeddi ei adroddiad Ystadegol Swyddogol cyntaf yn 2020.

## 1.1 Negeseuon allweddol i'r cyhoedd

- Mae sgrinio llygaid yn rheolaidd yn lleihau eich risg o golli golwg a achosir gan retinopathi diabetig.
- Mae retinopathi diabetig yn gymhlethdod cyffredin mewn diabetes sy'n effeithio ar y rhan o'r llygad sy'n ‘gweld’: y retina.
- Mae retinopathi yn cael ei achosi pan fydd pibellau gwaed bach yn y retina yn tyfu neu'n gollwng. Dros amser, gall hyn effeithio ar olwg dros dro neu'n barhaol.
- Hyd nes iddo gyrraedd cam hwyr, nid yw pobl â retinopathi yn profi unrhyw symptomau ac yn colli golwg; nid ydynt yn gwybod yr effeithir arnynt.

- Sgrinio rheolaidd yw'r ffordd orau o nodi a oes gennych unrhyw retinopathi.
- Gall retinopathi cam cynnar gael ei wrthdroi drwy reoli siwgr gwaed yn dda; gall retinopathi mwy datblygedig gael ei drin gan bigiadau llygaid neu gan laser.
- Mae sgrinio DESW yn brawf am ddim gan y GIG a gynhelir mewn clinigau cymunedol ac ysbytai ledled Cymru.
- Nid yw'r prawf sgrinio yn 100% gywir ac mae risgiau'n gysylltiedig â thriniaeth ar gyfer retinopathi diabetig.
- Mae cymryd rhan mewn sgrinio DESW yn ddewis.

## 1.2 Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen. Mae'r rhaglen yn cyflogi Pennaeth Rhaglen amser llawn, Cyfarwyddwr Clinigol sesiynol ac Arbenigwr Cyswllt. Cynhelir goruchwyliaeth glinigol a phroffesiynol sgrinio gan ddwy nyrs amser llawn. Yn ogystal, mae'r wyth aelod o staff yn nhîm rheoli DESW yn cynorthwyo cyflawni Cymru gyfan ar draws y swyddogaethau cadw lle clinigol, cyflawni clinigol a graddio delweddau, gyda chymorth gan dîm ysgrifenyddol a gweinyddol.

Mae'r tîm sgrinio, sy'n darparu clinigau, yn cael eu staffio gan 32 o Gynorthwywyr Gofal Iechyd a 32 o Ffotograffwyr Retinol, sy'n gweithredu o dri chanolfan ledled Cymru.  Mae'r holl ddelweddau retinol a gymerir ledled Cymru yn cael eu hadolygu a'u graddio gan ein tîm Graddio sy'n cynnwys 14 o staff hyfforddedig, wedi'u lleoli yn Nhrefforest (mae'r ffigurau staffio yn ymwneud â 2017/18).

## 1.3 Llwybr sgrinio

- Mae pobl sy'n 12 a hŷn sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes, sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru, yn cael eu hatgyfeirio i DESW ar gyfer sgrinio'r llygaid yn rheolaidd.
- Mae pobl gymwys yn cael eu gwahodd i sgrinio'r llygaid mewn dros 130 o leoliadau cymunedol ledled Cymru, fel ysbytai, canolfannau iechyd, practisau meddygon teulu, neu un o unedau symudol DESW.
- Bydd cyfranogwyr yn cael ymgynghoriad byr gyda Chynorthwyydd Gofal Iechyd DESW. Ar ôl gwirio craffter golwg (siart llygad),

rhoddir diferion llygaid er mwyn gwneud canhwyllau'r llygaid yn fwy.

- Ar ôl aros am tua 20 munud er mwyn i'r diferion llygaid weithio, bydd y ffotograffydd yn cymryd ffotograffau o gefn y llygaid gan ddefnyddio camera arbennig. Yna bydd yr apwyntiad ar ben.
- Yn yr ychydig wythnosau nesaf ar ôl yr apwyntiad, caiff y delweddau eu graddio er mwyn nodi a oes unrhyw retinopathi diabetig yn bresennol, a pha mor ddifrifol yw hyn.
- Caiff llythyrau sy'n cynnwys y canlyniadau sgrinio ac sy'n esbonio'r camau nesaf eu hanfon at bob cyfranogwr:
    - Lle nad oes retinopathi, neu dim ond swm cyfyngedig o retinopathi cefndirol yn bresennol, caiff y cyfranogwr ei ailwahodd i gael ei sgrinio gan DESW ymhen tua 12 mis
    - Lle ceir retinopathi mwy helaeth, neu os effeithir ar y rhan fwyaf sensitif o'r llygad (y maciwla), efallai y caiff y cyfranogwr ei ailalw am sgrinio DESW ymhen chwe mis er mwyn monitro ei gyflwr (goruchwyliaeth), neu ei atgyfeirio i Adran Offthalmoleg ei ysbyty lleol er mwyn cael asesiad arbenigol
    - Os yw'r cyfranogwr yn feichiog, caiff ei hailalw ymhen tri mis, p'un a oes unrhyw retinopathi yn bresennol ai peidio.

# 2 Penawdau Ystadegau 2017-18

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gweithgarwch o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018 yn gynwysedig.

Ar gyfer y cyfnod a ddangosir, nid oedd gan DESW unrhyw safonau perfformiad gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Cafodd y rhain eu cymhwyso yn weithredol o fis Ebrill 2018. Mae'r safonau newydd wedi'u nodi er gwybodaeth gyda phob tabl data ond nid oedd y gwasanaeth yn gweithio yn ôl y safonau hyn yn ystod y cyfnod hwn.

# 3 Data

## 3.1 Cwmpas

Mae cwmpas wedi'i ddiffinio fel y ganran o gleifion gweithredol cymwys, ar adeg benodol, sydd â chanlyniad a gofnodwyd yn y 12 mis blaenorol. Mae cleifion anghymwys yn cynnwys y rhai heb unrhyw ganfyddiad o oleuni yn y ddau lygad (sy'n gwbl ddall). Mae cleifion anweithredol yn cynnwys y rhai sydd o dan ofal gwasanaeth llygaid mewn ysbyty, neu sydd wedi dewis 'optio allan' o sgrinio llygaid yn ystod y cyfnod.

Mae argaeledd clinigol, y defnydd o wasanaethau, amseroedd aros clinigau a phrydlondeb canlyniadau graddio terfynol i gyd yn effeithio ar y cwmpas. Yn ogystal, mae'r twf cyflym a pharhaus o ran nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ddiabetes hefyd yn effeithio ar y gyfradd cwmpas, oherwydd bydd cleifion newydd yn gymwys ond nid fydd ganddynt ganlyniad blaenorol o fewn y cyfnod sy'n cael ei fesur.

Er bod lefelau cwmpas ar draws Cymru yn gyson ar y cyfan, mae gan y gwasanaeth waith i'w wneud er mwyn gwella perfformiad a chynorthwyo mwy o gleifion i fynd i gael eu prawf sgrinio o fewn cyfnod o 12 mis.

O fis Ebrill 2018, mae'r gwasanaeth wedi pennu safon cwmpas o 80%. Mae cryn waith yn cael ei wneud i adolygu'r materion sy'n effeithio ar gwmpas a mynd i'r afael â'r materion hyn, er y bydd y gwaith hwn yn cymryd peth amser i gael effaith sylweddol ar brofiad y claf.

**Tabl 1**:Cwmpas Sgrinio Llygaid Diabetig yn ôl Bwrdd Iechyd

| Rhanbarth | Cleifion gweithredol cymwys | Canlyniadau a gofnodwyd | Cwmpas (%) |
|---|---|---|---|
| BIP Abertawe Bro Morgannwg | 30836 | 20231 | 65.6% |
| BIP Aneurin Bevan | 36020 | 24547 | 68.1% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 36840 | 23335 | 63.3% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 22699 | 15136 | 66.7% |
| BIP Cwm Taf | 17631 | 11268 | 63.9% |
| BIP Hywel Dda | 22487 | 16157 | 71.9% |
| BI Addysgu Powys | 7727 | 5225 | 67.6% |
| **Cymru Gyfan** | **174240** | **115899** | **66.5%** |

## 3.2 Cynnig sgrinio'n amserol

Mae'r data hyn yn dangos i ba raddau mae DESW yn cynnig apwyntiadau sgrinio mewn modd amserol, wedi'i ddadansoddi yn ôl ardal bwrdd iechyd. Mae 97% o gleifion sy'n cael eu sgrinio yn cael eu hailalw ar gyfer sgrinio DESW, yn hytrach na chael eu hatgyfeirio i Offthalmoleg. Mae'r mwyafrif helaeth (95%) yn cael eu gosod ar lwybr ailalw rheolaidd, sy'n golygu y dylent gael eu sgrinio o fewn 12 mis i'w canlyniad sgrinio diwethaf. Mae cleifion nad ydynt yn mynd i'w hapwyntiad hefyd yn cael cynnig ailalw rheolaidd ymhen 12 mis.

Mae argaeledd clinig yn cael effaith sylweddol ar y safon hon, o safbwynt pa mor aml y gall y gwasanaeth gynnig clinigau sgrinio ym mhob ardal ddaearyddol, ac a yw'n bosibl trefnu clinigau ychwanegol lle bu cynnydd annisgwyl mewn cleifion newydd neu wedi'u goruchwylio y mae angen iddynt gael eu gweld yn gyflymach.

O fis Ebrill 2018, mae'r gwasanaeth wedi pennu'r safon y dylai 95% o gleifion gael cynnig apwyntiad ailalw o fewn 12 mis i'w canlyniad sgrinio diwethaf. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn gwella cyfraddau cwmpas gwasanaeth yn effeithio ar y safon hon hefyd.

**Tabl 2**:Cleifion a gafodd eu Hailalw o fewn 12 Mis yn ôl Bwrdd Iechyd

| **Rhanbarth** | **Ailalw a gynigiwyd** | **Cynigiwyd yr ailalw o fewn 12 mis** | **%** |
| --- | --- | --- | --- |
| BIP Abertawe Bro Morgannwg | 22935 | 15581 | 67.9% |
| BIP Aneurin Bevan | 28600 | 21152 | 74.0% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 26398 | 18254 | 69.1% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 16697 | 13643 | 81.7% |
| BIP Cwm Taf | 12853 | 8666 | 67.4% |
| BIP Hywel Dda | 18446 | 15497 | 84.0% |
| BI Addysgu Powys | 6037 | 4599 | 76.2% |
| **Cymru Gyfan** | **131966** | **97392** | **73.8%** |

## 3.3 Adroddiad ar ganlyniadau sgrinio

Mae'r safon hon yn rhoi mesur o amseroldeb y gwasanaeth sgrinio pan fydd yr apwyntiad sgrinio wyneb yn wyneb wedi digwydd. Er mwyn i'r canlyniad gael ei baratoi; rhaid i sgrinwyr gofnodi demograffeg cleifion yn gywir a chofnodi delwedd o ansawdd uchel, rhaid i'r tîm graddio baratoi canlyniad gradd terfynol, gan gynnwys ailasesiad wedi'i ailadrodd ar gyfer delweddau cymhleth, a rhaid i'r tîm gweinyddu gyflawni gofynion argraffu a phost yn ddyddiol.

Mae’r data isod yn ymwneud â pharatoi llythyrau canlyniad i gleifion, yn hytrach na'r copïau safonol a anfonir at feddygon teulu. Mae'r dadansoddiad yn ôl bwrdd iechyd yn dangos lefel uchel o gysondeb, sydd i'w ddisgwyl oherwydd bod y timau graddio a gweinyddu sy'n ymdrin â'r holl ganlyniadau wedi'u lleoli'n ganolog ac mae achosion yn cael eu prosesu yn nhrefn dyddiad o fewn categorïau brys gwahanol, yn hytrach nag ar sail clinig fesul clinig. Er bod y gwasanaeth yn gweithredu rhwng dydd Llun a dydd Gwener yn unig, mae'r diwrnodau a gyfrifir o fewn y targed o 21 diwrnod yn cynnwys penwythnosau a gwyliau banc.

Y safon a gymhwyswyd o fis Ebrill 2018 yw i 85% o lythyrau canlyniad cleifion gael eu hargraffu o fewn 21 diwrnod i'r apwyntiad sgrinio.

**Tabl 3:** Canlyniadau wedi'u hargraffu yn ôl Bwrdd Iechyd

| Rhanbarth | Llythyrau canlyniadau a argraffwyd | Canlyniadau a argraffwyd o fewn 21 diwrnod | % |
|---|---|---|---|
| BIP Abertawe Bro Morgannwg | 19884 | 19849 | 99.8% |
| BIP Aneurin Bevan | 24164 | 23748 | 98.3% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 22897 | 22703 | 99.2% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 14932 | 14675 | 98.3% |
| BIP Cwm Taf | 11330 | 11272 | 99.5% |
| BIP Hywel Dda | 15899 | 15649 | 98.4% |
| BI Addysgu Powys | 5203 | 5191 | 99.8% |
| **Cymru Gyfan** | **114309** | **113087** | **98.9%** |

## 3.4 Retinopathi a nodwyd

Mae'r tabl drosodd yn dangos nifer a chyfran y cleifion ym mhob ardal bwrdd iechyd y mae eu canlyniad sgrinio yn dangos retinopathi neu ddim retinopathi. Mae'r ffigurau Cymru Gyfan yn dangos na chafodd 69.1% o'r boblogaeth a sgriniwyd ar draws Cymru unrhyw retinopathi wedi'i nodi o'u proses sgrinio.

Ceir cryn gysondeb ar draws poblogaeth Cymru mewn perthynas â chyfran y bobl â retinopathi a'r ardal y maent yn byw ynddi. Mae'r ffigur sy'n dangos ‘unrhyw retinopathi’ yn cynnwys presenoldeb pob gradd retinopathi: o retinopathi ysgafn, cefndirol i retinopathi ymledol sy'n ei gwneud yn ofynnol atgyfeirio i'r ysbyty ar frys. Gall presenoldeb a difrifoldeb retinopathi amrywio yn dibynnu ar ba mor dda mae lefel glwcos gwaed y person yn cael ei rheoli. Gall unigolyn sydd yn y categori ‘unrhyw retinopathi’ mewn un flwyddyn symud i ‘dim retinopathi’ yn y digwyddiad sgrinio nesaf.

Mae'r categori ’anraddiadwy’ yn ymwneud â'r cleifion hynny sydd wedi mynd i gael eu hasesiad sgrinio llygaid, ond ni fu'n bosibl cofnodi ffotograff clir o'u retina er mwyn gallu gwneud y graddio. Un enghraifft o hyn fyddai oherwydd bod gan y claf gataract sy'n cuddio'r retina rhag ei weld.  Gall cleifion anraddiadwy naill ai gael eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Llygaid Ysbyty neu eu hailalw i gael eu sgrinio, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

**Tabl 4**:Dadansoddiad o Retinopathi yn ôl Bwrdd Iechyd

| **Rhanbarth** | **Canlyniadau a nodwyd** | **Dim retinopathi** | **%** | **Unrhyw retinopathi** | **%** | **Anraddiadwy** | **%** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BIP Abertawe Bro Morgannwg | 19884 | 13817 | 69.5% | 5675 | 28.5% | 392 | 2.0% |
| BIP Aneurin Bevan | 24164 | 16709 | 69.1% | 6976 | 28.9% | 479 | 2.0% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 22897 | 15903 | 69.5% | 6536 | 28.5% | 458 | 2.0% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 14932 | 10203 | 68.3% | 4450 | 29.8% | 279 | 1.9% |
| BIP Cwm Taf | 11330 | 7794 | 68.8% | 3293 | 29.1% | 243 | 2.1% |
| BIP Hywel Dda | 15899 | 10954 | 68.9% | 4597 | 28.9% | 348 | 2.2% |
| BI Addysgu Powys | 5203 | 3585 | 68.9% | 1504 | 28.9% | 114 | 2.2% |
| **Cymru Gyfan** | **114309** | **78965** | **69.1%** | **33031** | **28.5%** | **2313** | **2.0%** |

Mae'r data isod yn rhoi rhagor o fanylion am y ffigurau a ddangosir yn nhabl 4. Fel y gellir gweld, er bod gan 28.5% o gleifion a sgriniwyd ar draws Cymru rywfaint o retinopathi, yn ymarferol gellir ystyried y gyfran lai o lawer a ddangosir isod ar gyfer goruchwyliaeth, neu atgyfeirio i wasanaeth llygaid ysbyty ar gyfer asesiad a thriniaeth arbenigol.

**Tabl 5**:Canlyniadau Retinopathi yn ôl Bwrdd Iechyd

| **Rhanbarth** | **Retinopathi/ macwlopathi sy'n bygwth golwg** | **% o'r boblogaeth ddiabetig a sgriniwyd â retinopathi/macwlopathi sy'n bygwth golwg yn ôl rhanbarth** | **Retinopathi/ macwlopathi difrifol *** | **% o'r boblogaeth ddiabetig a sgriniwyd â retinopathi/macwlopathi difrifol yn ôl rhanbarth** |
|---|---|---|---|---|
| BIP Abertawe Bro Morgannwg | 1283 | 6.5% | 233 | 1.2% |
| BIP Aneurin Bevan | 1440 | 6.0% | 301 | 1.2% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 1374 | 6.0% | 261 | 1.1% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 1096 | 7.3% | 174 | 1.2% |
| BIP Cwm Taf | 685 | 6.0% | 157 | 1.4% |
| BIP Hywel Dda | 999 | 6.3% | 222 | 1.4% |
| BI Addysgu Powys | 275 | 5.3% | 49 | 0.9% |
| **Cymru Gyfan** | **7152** | **6.3%** | **1397** | **1.2%** |

* nifer y bobl â retinopathi/macwlopathi sy'n bygwth golwg sy'n ddifrifol – noder, mae'r cleifion hyn yn ymddangos yn y categori sy'n bygwth golwg a'r categori difrifol.

## 3.5 Atgyfeiriadau i Offthalmoleg

Mae DESW yn atgyfeirio cleifion i Offthalmoleg ar sail frys a rheolaidd, yn dibynnu ar ddifrifoldeb eu retinopathi.

Mae'r ffigurau isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau brys a wnaed gan DESW yn ystod 2017-18. Ar lefel Cymru gyfan, roedd 64% o atgyfeiriadau brys yn ymwneud â retinopathi diabetig, ac roedd 36% yn ymwneud â materion eraill a nodwyd. Eto, mae'r ffigurau'n dangos lefel uchel o gysondeb ar draws ardaloedd daearyddol.

O fis Ebrill 2018, mae'r gwasanaeth yn mesur ei hun yn erbyn safon o 95% o gleifion â chanlyniad retinopathi diabetig brys (R3A – retinopathi ymledol gweithredol) yn cael eu hatgyfeirio i Offthalmoleg o fewn dwy wythnos i'w hapwyntiad sgrinio.

**Tabl 6**:Atgyfeiriadau i Offthalmoleg yn ôl Bwrdd Iechyd

| **Rhanbarth** | **Atgyfeiriadau brys i Offthalmoleg ar gyfer RD** | **Atgyfeiriadau brys i Offthalmoleg ar gyfer niweidiau eraill *** | **Cyfanswm yr atgyfeiriadau brys** |
|---|---|---|---|
| BIP Abertawe Bro Morgannwg | 116 | 66 | 182 |
| BIP Aneurin Bevan | 137 | 78 | 215 |
| BIP Betsi Cadwaladr | 131 | 70 | 201 |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 79 | 43 | 122 |
| BIP Cwm Taf | 81 | 39 | 120 |
| BIP Hywel Dda | 115 | 64 | 179 |
| BI Addysgu Powys | 22 | 22 | 44 |
| **Cymru Gyfan** | **681** | **382** | **1,063** |

* Os, wrth asesu delwedd ar gyfer retinopathi diabetig, bydd y graddiwr yn sylwi ar fater nad yw'n ymwneud â diabetes, efallai y bydd hyn hefyd yn ysgogi atgyfeiriad rheolaidd neu frys.

# 4 Diffiniadau

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y cyfrifiadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

**Gweithredol cymwys**

Mae'r diffiniad o'r boblogaeth weithredol gymwys yn cynnwys cleifion yn y cyflyrau canlynol:

- Aros am apwyntiad/triniaeth sgrinio
- Yn cael eu sgrinio / graddio
- O dan ofal Offthalmoleg ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn rhai diabetig
- Nodwyd fel dychwelwyd drwy swyddfa'r post

Mae'r boblogaeth weithredol gymwys yn eithrio cleifion ataliedig ac anweithredol:

**Ataliedig**

- O dan ofal offthalmoleg ar gyfer retinopathi diabetig
- Gohiriwyd y sgrinio
- Anabledd corfforol/dysgu neu feddyliol dros dro
- Sgrinio wedi'i wrthod
- O dan 12 oed

**Anweithredol:**

- Wedi optio allan o sgrinio
- Yn anffit yn feddygol
- Dim canfyddiad o olau yn y ddau lygad
- Salwch angheuol
- Ymadawedig
- Rhyddhawyd
- Wedi symud allan o'r ardal
- Ddim yn ddiabetig bellach
- Anabledd corfforol/dysgu/meddyliol parhaol
- Wedi cofrestru'n ddall

## Y rhai a gafodd eu sgrinio

Y rhai a gafodd eu sgrinio: % cleifion cymwys sydd wedi mynd i wahoddiad sgrinio.

Sicrheir bod cynifer â phosibl yn cael eu sgrinio ar gyfer llygaid diabetig o fewn egwyddorion dewis gwybodus ac isafswm o 80% o gleifion yn mynd i ddigwyddiad sgrinio digidol lle mae delweddau'n cael eu cofnodi.

Enwadur = Cleifion gweithredol cymwys sydd wedi cael cynnig apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis.

Rhifiadur = Cleifion gweithredol cymwys sydd wedi mynd i apwyntiad sgrinio rhwng dechrau'r mis a diwedd y mis. Mae hyn yn cynnwys cleifion a aeth i'r apwyntiad ond nid oedd modd cymryd ffotograff am resymau technegol a chleifion nac oeddent yn gallu cydymffurfio â'r weithdrefn sgrinio.

## Cwmpas

Cwmpas: % carfan a ddiffinnir o gyfranogwyr gweithredol cymwys â chanlyniad a gofnodwyd yn y 12 mis diwethaf

Enwadur = Cleifion gweithredol cymwys fel y'u cofnodwyd ar ddiwedd y mis.

Rhifiadur = Cleifion gweithredol cymwys ar ddiwedd y mis, y cafodd llythyr canlyniad ei argraffu iddynt o fewn y 12 mis blaenorol.

## Bwrdd Iechyd

Dyma fwrdd iechyd preswyl y claf.

## Gwahoddwyd

Cleifion sy'n cael apwyntiad a gynigiwyd gyntaf (heb ei ganslo gan y rhaglen), o fewn mis yr adroddiad.

## Profwyd

Nifer y cleifion â chanlyniad graddio terfynol.

## Retinopathi/macwlopathi sy'n bygwth golwg

Yn cynnwys canlyniadau graddio sy'n nodi retinopathi cyn ymledol neu ymledol: R2M0, R2M1, R3AM0, R3AM1, R3SM0, R3SM1. Mae hefyd yn cynnwys canlyniad graddio o retinopathi cefndirol bach gyda macwlopathi R1M1.

**Retinopathi/Macwlopathi Difrifol**

Yn cynnwys canlyniadau graddio sy'n nodi retinopathi difrifol (ymledol): R3AM0, R3AM1, R3SM0, R3SM1.

# 5 Tîm Cynhyrchu

| | |
| --- | --- |
| Jude Kay | Pennaeth y Rhaglen: Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru |
| Helen Clayton | Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Gavin Bhakta | Uwch-ddadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio |
| Heather Lewis | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus |
| Catherine Floyd | Cofrestrydd Arbenigol |
| Anna Ashman | Rheolwr Cyfathrebu |
| Sarah Thomas | Swyddog Cyfathrebu |
| Rhys George | Cofus Cyf (Cyfieithiad Cymraeg) |